

Arolygiad Iechyd Meddwl / Anabledd Dysgu [Dirybudd]

Grŵp Gofal Iechyd Ludlow
Street: **Heatherwood Court**

2 – 4 Mehefin 2015

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni: Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu trwy'r canlynol

Ffôn: 0300 062 8163
Ebost: agic@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyfwlyniad.....	2
2.	Methodoleg	4
3.	Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth	6
4.	Crynodeb	7
5.	Canfyddiadau.....	8
	Safonau Craidd.....	8
	Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl	20
	Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl	22
6.	Y Camau Nesaf.....	23
	Atodiad A	24

1. Cyfwlyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r rheoleiddiwr gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru, ac mae'n cyflawni'r swyddogaeth ar ran Gweinidogion Cymru, sydd wedi'u penodi'n awdurdod cofrestru dros Gymru trwy awdurdod Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Mae ein harolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu yn cynnwys ysbytai annibynnol a gwasanaethau iechyd meddwl a gynigir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Mae ymweliadau arolygu'n agwedd allweddol ar ein hasesiad o ansawdd a diogelwch gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledd dysgu yng Nghymru.

Yn ystod ein hymweliadau, rydym yn sicrhau bod buddiannau'r cleifion yn cael eu monitro a bod lleoliadau'n cyflawni eu cyfrifoldebau trwy:

- Fonitro cydymffurfiaeth â Deddf Iechyd Meddwl 1983, Deddf Galluedd Meddyliol 2005, a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid
- Cydymffurfio, fel sy'n berthnasol, â Safonau Gofynnol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn unol â gofynion Deddf Safonau Gofal 2000 a Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011

Canolbwynt arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu AGIC yw sicrhau bod unigolion sy'n derbyn gwasanaethau o'r fath:

- yn ddiogel
- yn derbyn gofal mewn amgylchedd therapiwtig a chartrefol
- yn derbyn gofal a thriniaeth briodol gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol
- yn cael eu hannog i gyfrannu at eu cynlluniau gofal a thriniaeth
- yn cael eu cynorthwyo i fod mor annibynnol â phosibl
- yn cael gwneud dewisiadau ac yn cael eu hannog i wneud hynny

- yn cael mynediad at amrywiaeth o weithgareddau sy'n eu hannog i wireddu eu llawn botensial
- yn gallu cael mynediad at eiriolwyr annibynnol ac yn cael eu cynorthwyo i fynegi pryderon a chwynion ac
- yn cael eu cynorthwyo i gynnal perthynas â theulu a ffrindiau pan fyddant yn dymuno gwneud hynny.

2. Methodoleg

Mae'r model arolygu a ddefnyddir gan AGIC i gyflawni'r arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu'n cynnwys:

- Cyfweiliadau a thrafodaethau cynhwysfawr gyda chleifion, perthnasau, eiriolwyr a chroestoriad o staff, gan gynnwys y clinigydd cyfrifol, therapyddion galwedigaethol, seicolegwyr, addysgwyr a staff nyrsio
- Cyfweiliadau gydag uwch staff gan gynnwys aelodau'r bwrdd lle y bo'n bosibl
- Archwilio dogfennau gofal, gan gynnwys dogfennau'r tîm amlddisgyblaethol
- Craffu ar bolisiau a gweithdrefnau allweddol
- Arsylwi'r amgylchedd
- Craffu ar yr amodau cofrestru ar gyfer y sector annibynnol
- Archwilio ffeiliau staff, gan gynnwys cofnodion hyfforddiant
- Craffu ar weithgareddau hamdden a chymdeithasol
- Craffu ar y dogfennau ar gyfer cleifion sy'n cael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983
- Ystyried gweithrediad Mesur Cymru (2010)¹
- Archwilio cofnodion yn ymwneud ag ataliaeth, cwynion, pryderon ac atgyfeiriadau mewn perthynas ag amddiffyn oedolion agored i niwed
- Rhoi trosolwg o brosesau storio, rhoi, archebu a chofnodi cyffuriau, gan gynnwys cyffuriau a reolir
- Ystyried ansawdd y bwyd

¹ Deddfwriaeth sylfaenol a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r Mesur; ymhlith materion eraill, mae'n gwneud darpariaeth o ran asesu, cynllunio gofal a chydgyssylltu mewn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd

- Gweithredu'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid

Mae AGIC yn defnyddio amrywiaeth o adolygwyr arbenigol a lleyg ar gyfer y broses arolygu, gan gynnwys adolygwr â phrofiad helaeth o fonitro cydymffurfiad â Deddf Iechyd Meddwl 1983. Mae'r arolygiadau hyn yn cynnig cipolwg ar y safonau gofal y mae cleifion yn eu derbyn.

3. Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth

Cynhaliodd AGIC ymweliad Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu dirybudd â Heatherwood Court, Pontypridd, gyda'r hwyr ar 2 Mehefin 2015, a thrwy'r dydd ar 3 a 4 Mehefin 2015.

Cofrestrwyd Heatherwood Court gydag AGIC yn gyntaf ym mis Rhagfyr 2007, ac mae wedi'i gofrestru ar hyn o bryd i roi llety i 47 o gleifion mewn pedair ward wahanol.

Roedd Cas-gwent yn ward ddiogelwch isel ar gyfer un rhyw yn unig, ac iddi 12 gwely. Ar adeg ein harolygiad roedd yn cael ei defnyddio ar gyfer dynion. Roedd Caerffili ac Aberteifi yn wardiau diogelwch isel ar gyfer un rhyw yn unig, ac iddynt 12 gwely. Ar adeg ein harolygiad roedd y ddwy ward yn cael eu defnyddio ar gyfer menywod. Roedd Caernarfon yn ward o dan glo ar gyfer un rhyw yn unig, ac iddi 12 gwely. Ar adeg ein harolygiad roedd yn cael ei defnyddio ar gyfer menywod. Mae pob ward wedi'i chofrestru ar gyfer un rhyw yn unig, a gellir newid ei defnydd rhwng dynion a menywod, yn dibynnu ar anghenion y grŵp cleifion presennol.

Mae Heatherwood Court yn darparu gwasanaeth ar gyfer pobl sydd wedi cael diagnosis o iechyd meddwl, a all fod yn gymwys i gael eu cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

Yn ystod yr arolygiad tri diwrnod, gwnaethom adolygu pob un o'r pedair ward, gan adolygu cofnodion cleifion, cyfweld â chleifion a staff, adolygu'r amgylchedd gofal, ac arsylwi ar y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion. Roedd y tîm adolygu'n cynnwys un adolygydd y Ddeddf Iechyd Meddwl, un adolygydd cymheiriaid, un adolygydd lleyg ac un aelod o staff AGIC.

4. Crynodeb

Gwnaeth ein harolygiad o Heatherwood Court ym mis Mehefin 2015 ddangos llawer o feysydd o arfer nodedig ar waith. Fodd bynnag, oherwydd natur y gwasanaeth mae Heatherwood Court yn ei ddarparu, roedd staff yn wynebu nifer o heriau wrth iddynt reoli'r risgiau roedd y grŵp cleifion yn eu peri.

Roedd proses gadarn ar waith ar gyfer cofnodi a monitro digwyddiadau yn Heatherwood Court. Roedd hon yn cael ei defnyddio fel rhan o'r broses o adolygu addasrwydd lleoliadau. Pan fydd angen, mae'r ysbyty'n chwilio am leoliadau mwy addas ar gyfer cleifion. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig y gallai sicrhau lleoliadau addas fod yn broses hir, oherwydd diffyg lleoliadau ar gael sy'n bodloni anghenion rhai cleifion.

Roedd y broses gwyno'n drefnus, ac yn y rhan fwyaf o achosion roedd cwynion yn derbyn sylw o fewn amserlenni polisi cwyno'r sefydliad. Fodd bynnag, roedd y broses yn defnyddio system bapur, ac fe fyddai ar ei hennill pe byddai system electronig yn cael ei chyflwyno.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n siarad yn gadarnhaol am weithio yn Heatherwood Court ac am yr ysbyrd tîm da. Yn ogystal, roedd staff yn siarad yn gadarnhaol am y cyfleoedd ar gyfer ymsefydlu, hyfforddiant a goruchwyliaeth a oedd ar gael i staff.

Roedd y cyfathrebu a'r cysylltiadau wedi eu datblygu'n dda trwy gydol yr ysbyty, a dywedodd y staff fod amgylchedd democrataidd, lle roeddent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod eu safbwyntiau'n cael eu parchu.

Roedd gan Heatherwood Court floc neilltuedig ar gyfer gweithgareddau a therapïau, a adwaenid fel y Ganolfan ('The Hub'). Roedd y ganolfan yn darparu amrywiaeth eang o weithgareddau a therapïau a oedd yn addas ar gyfer y grŵp cleifion. Fodd bynnag, gwnaeth nifer o gleifion leisio pryderon nad oeddent yn teimlo bod y gweithgareddau a'r therapïau ar gael yn addas iddyn nhw. Rydym yn gofyn i'r darparwr cofrestredig ymchwilio i ddarpariaeth gweithgareddau a therapïau yn Heatherwood Court.

5. Canfyddiadau

Safonau Craidd

Amgylchedd y Ward

Ward Cas-gwent

Roedd Ward Cas-gwent yn ward ddiogelwch isel ar gyfer dynion ac iddi 12 gwely. Nid oedd ystafelloedd gwely'r cleifion yn cynnwys en suite; fodd bynnag, roedd tai bach a chawodydd cymunol ar y ward.

Ar Ward Cas-gwent roedd lolfa ac ystafell fwyta. Roedd maint y ddwy ohonynt yn addas. Roedd ystafell dawel ar gyfer cleifion lle roeddent yn gallu ymlacio, yn ogystal ag ystafell ychwanegol ac ynddi set deledu a chonsol gemau.

Roedd y ward i'w gweld yn lân ac wedi'i chynnal a'i chadw'n dda. Roedd wedi cael ei haddurno yn ddiweddar, a oedd wedi rhoi naws lachar a ffres i'r ward. Roedd posterï wedi'u harddangos o gwmpas y ward, ynghyd â phosterï gwybodaeth a thaflenni ar gyfer cleifion.

Roedd gan gleifion fynediad at ardd ddiogel gaeedig, a oedd wedi'i chynnal a'i chadw'n dda. Roedd cyfleusterau yn yr ardd ar gyfer cleifion a oedd yn dymuno ysmegu. Roedd cleifion yn gallu mynd i'r ardd am hyd at 30 munud bob awr.

Ward Aberteifi

Roedd Ward Aberteifi yn ward ddiogelwch isel ar gyfer menywod, ac iddi 12 gwely. Nid oedd ystafelloedd gwely'r cleifion en suite; Fodd bynnag, roedd tai bach a chawodydd cymunol ar y ward.

Ar Ward Aberteifi roedd lolfa ac ystafell fwyta. Roedd maint y ddwy ohonynt yn addas. Roedd y dodrefn yn yr ystafell fwyta wedi cael eu difrodi ac wedi treulio. Roedd dodrefn newydd wedi cael eu harchebu ond nid oeddent wedi cyrraedd ar adeg ein harolygiad. Dywedwyd wrthym hefyd fod cleifion yn creu eitemau dodrefnu ar gyfer y ward, gan gynnwys llenni ar gyfer yr ystafell fwyta, fel rhan o'u rhaglen o weithgareddau.

Roedd ystafell dawel ar gyfer cleifion lle roeddent yn gallu ymlacio, yn ogystal ag ystafell weithgareddau ar gyfer gweithgareddau celf a chrefft ar y ward.

Roedd yr ystafell i'w gweld yn lân ac wedi'i chynnal a'i chadw'n dda. Fodd bynnag, roedd drws swyddfa'r ward yn cau yn drwm, a oedd yn creu sŵn uchel a oedd yn aflonyddu ar staff a chleifion. Roedd posterï wedi'u harddangos o gwmpas y ward, ynghyd â phosterï gwybodaeth a thaflenni ar gyfer cleifion.

Roedd gan gleifion fynediad at ardd ddiogel gaeedig, a oedd wedi'i chynnal a'i chadw'n dda. Roedd cyfleusterau yn yr ardd ar gyfer cleifion a oedd yn dymuno ysmegu. Roedd cleifion yn gallu mynd i'r ardd am hyd at 30 munud bob awr.

Ward Caerffili

Roedd Ward Caerffili yn ward ddiogelwch isel ar gyfer menywod, ac iddi 12 gwely. Nid oedd ystafelloedd gwely'r cleifion yn cynnwys en suite. Fodd bynnag, roedd tai bach a chawodydd cymunol ar y ward.

Ar Ward Caerffili roedd lolfa ac ystafell fwyta. Roedd maint y ddwy ohonynt yn addas. Roedd ystafell dawel ar gyfer cleifion lle roeddent yn gallu ymlacio, yn ogystal ag ystafell weithgareddau ar gyfer gweithgareddau celf a chrefft ar y ward.

Roedd y ward i'w gweld yn lân ac wedi'i chynnal a'i chadw'n dda. Roedd posteri wedi'u harddangos o gwmpas y ward, ynghyd â phosteri gwybodaeth a thaflenni ar gyfer cleifion.

Roedd gan gleifion fynediad at ardd ddiogel gaeedig, a oedd wedi'i chynnal a'i chadw'n dda. Roedd cyfleusterau yn yr ardd ar gyfer cleifion a oedd yn dymuno ysmegu. Roedd cleifion yn gallu mynd i'r ardd am hyd at 30 munud bob awr.

Ward Caernarfon

Roedd Ward Caernarfon yn ward adsefydlu dan glo ar gyfer menywod, ac iddi 12 ystafell wely sengl. Nid oedd ystafelloedd gwely cleifion yn cynnwys en suite. Fodd bynnag, roedd tai bach a chawodydd cymunedol ar y ward.

Ar Ward Caernarfon roedd lolfa ac ystafell fwyta. Roedd maint y ddwy ohonynt yn addas. Roedd ystafell dawel ar gyfer cleifion lle roeddent yn gallu ymlacio, yn ogystal ag ystafell weithgareddau ar gyfer gweithgareddau celf a chrefft ar y ward.

Roedd y ward i'w gweld yn lân ac wedi'i chynnal a'i chynnal a'i chadw'n dda. Roedd wedi cael ei haddurno yn ddiweddar, a oedd wedi rhoi naws lachar a ffres i'r ward. Roedd posteri wedi'u harddangos o gwmpas y ward, ynghyd â phosteri gwybodaeth a thaflenni ar gyfer cleifion.

Roedd gan gleifion fynediad at ardd ddiogel gaeedig, a oedd wedi'i chynnal a'i chadw'n dda. Roedd cyfleusterau yn yr ardd ar gyfer cleifion a oedd yn dymuno ysmegu. Roedd cleifion yn gallu mynd i'r ardd am hyd at 30 munud bob awr.

Camau Gofynnol

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod dodrefn newydd yn cael eu prynu ar gyfer Ward Aberteifi.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod llenni yn yr ystafell fwyta ar Ward Aberteifi.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y mecanwaith cau drysau ar ddrws swyddfa Ward Aberteifi yn cael ei gywiro i sicrhau bod y drws yn cau heb aflonyddu ar staff a chleifion.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig addurno Ward Aberteifi a Ward Caerffili er mwyn gwella golwg y Wardiau.

Diogelwch

Nodwyd bod gan bob aelod o'r staff ar y wardiau larymau diogelwch, a fyddai'n rhybuddio pobl eraill pe byddai argyfwng. Roedd angen lefelau uwch o arsylwi ar nifer o gleifion² oherwydd y risg roeddent yn ei pheri oherwydd eu cyflyrau iechyd meddwl.

Yn ystod ein harolygiad gwnaethom nodi bod lefelau staffio yn ddigonol ar gyfer nifer y cleifion a oedd ar y wardiau, ac er mwyn rheoli'r risgiau yr oedd y grŵp cleifion yn eu peri. Roedd hyn yn cynnwys y staff a oedd yn cynnal arsylwadau lefel uwch ar gleifion. Fodd bynnag, oherwydd yr heriau a'r risgiau roedd y grwpiau o gleifion yn eu peri, yn enwedig ar y wardiau diogelwch isel, roedd y staff trwy'r ysbyty i gyd bob amser yn brysur iawn wrth gyflawni eu rolau. Gwelsom fod staff yn barod eu cymwynas ond yn aml yn brysur, a chafwyd sylwadau gan nifer o gleifion yn hyn o beth. Felly roedd yn rhaid i staff flaenoriaethu ceisiadau cleifion, a oedd yn gallu achosi rhwystredigaeth i rai cleifion.

Oherwydd natur y gwasanaeth mae Heatherwood Court yn ei ddarparu, roedd nifer o'r cleifion yn peri'r risg o ymddygiadau heriol ac ymddygiadau cysylltiedig. Gwnaethom drafod y broses o asesu cleifion ar gyfer derbyn, a chadarnhawyd bod y gwaith o asesu cleifion ar gyfer derbyn yn cael ei gynnal gan aelodau clinigol yn Heatherwood Court. Mae'r asesiadau'n ystyried a allai anghenion unigol y claf gael eu bodloni yn yr ysbyty, ac a fyddai derbyn y claf yn addas ar gyfer y cymysgedd o gleifion yn yr ysbyty.

² Mae lefelau uwch o arsylwi'n ddull o ymyrryd a ddefnyddir ar gyfer rheoli ymddygiad trwblus/treisgar ac er mwyn atal hunan-niwed. Gall hyn olygu bod angen i staff gynyddu amllder gwiriadau neu arsylwi ar gleifion yn barhaus. Am ragor o ganllawiau gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol ewch i <https://www.nice.org.uk/guidance/cg25/chapter/1-Guidance#/observation-and-engagement>

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod addasrwydd lleoliad cleifion unigol yn Heatherwood Court yn cael ei fonitro'n barhaus. Pan fydd angen, mae'r ysbyty'n ceisio symud cleifion i leoliadau mwy addas – boed hynny yn lleoliad mwy diogel neu yn lleoliad llai diogel, yn seiliedig ar anghenion unigol y claf. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig y gallai sicrhau lleoliadau addas fod yn broses hir, oherwydd diffyg lleoliadau sydd ar gael sy'n bodloni anghenion rhai cleifion.

Lleisiodd nifer o gleifion eu pryderon ynglŷn â'r cymysgedd cleifion ar y wardiau, gan ddweud bod rhai digwyddiadau wedi cael eu hachosi gan gleifion nad oeddent yn dod ymlaen â chleifion eraill – yn enwedig ar Ward Aberteifi a Ward Caerffili, sef y ddwy ward ddiogelwch isel ar gyfer menywod. Cadarnhaodd staff eu bod yn rheoli'r risg o ddigwyddiadau trwy fonitro risgiau cleifion unigol, sy'n cael eu cofnodi yng nghynlluniau gofal cleifion, a thrwy osod lefelau priodol o arsylwi ar gyfer cleifion.

Digwyddiadau Difrifol

Roedd gan Heatherwood Court, fel rhan o Ofal Iechyd Ludlow Street, bolisi digwyddiadau difrifol ar waith a oedd yn berthnasol i bob aelod o staff, gan gynnwys staff asiantaeth. Mae'r polisi'n seiliedig ar fframwaith Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion ar gyfer Adrodd Digwyddiadau sydd angen eu Hymchwilio a Dysgu Trwyddynt, a Chanllawiau'r GIG yng Nghymru ar Adrodd Digwyddiadau Difrifol a Phryderon Eraill ynglŷn â Chleifion ac Ymdrin â nhw/Dim Digwyddiadau Annisgwyl.

Gwnaethom adolygu'r Polisi Digwyddiadau a Diogelu a'r System Adrodd yn Heatherwood Court. Byddai unrhyw ddigwyddiad yn cael ei gofnodi ar system electronig, ac roedd y digwyddiad yn derbyn sgôr yn seiliedig nifer o ffactorau. Mae'r sgôr yn nodi pa broses uwchgyfeirio y dylid ei dilyn, gan gynnwys atgyfeirio at dîm diogelu'r awdurdod lleol. Roedd y ffurflenni atgyfeirio a'r system pennu sgôr yn cael eu monitro'n rheolaidd gan uwch staff, yn ogystal â chael eu monitro trwy'r cyfarfodydd llywodraethu clinigol misol. Roedd y cyfarfodydd hyn yn cynnwys monitro manylion megis y nifer o ddigwyddiadau, manylion y cleifion a oedd wedi'u cynnwys mewn digwyddiadau rhwng cleifion, pa gleifion a oedd yn cael eu cynnwys mewn ymyriadau corfforol, dadansoddiad o'r math o ddigwyddiad, ac ar ba ward yr oedd y digwyddiad. Yn ogystal, roedd achosion o faglu a chwympo yn cael eu monitro trwy gyfarfodydd llywodraethu clinigol.

Archwiliwyd hapsampl o bedwar cofnod o ddigwyddiadau difrifol, er mwyn sicrhau cydymffuriad â'r Polisi Digwyddiadau Difrifol. Ni nodwyd unrhyw broblemau, a gwelwyd bod yr holl gofnodion a oedd wedi'u cadw ar y system electronig yn cofnodi gwybodaeth gywir a chmau gweithredu ynglŷn â'r canlynol:

- roedd natur y digwyddiad wedi'i nodi'n fanwl yn y cofnod
- roedd disgrifiad clir a manwl o'r hyn a ddigwyddodd cyn y digwyddiad
- roedd camau priodol wedi'u cymryd ar ôl y digwyddiad.

Roedd gan bob digwyddiad gyfeirnod unigol ac roedd wedi'i gysylltu â'r system FACE, gan ganiatáu trin data, gan gynnwys cyfeiriadau unigol, camau a gymerwyd a'r dyddiadau cysylltiedig. Hefyd, roedd y rheolwyr a'r staff clinigol perthnasol wedi'u cysylltu â system e-bost a oedd yn eu hysbysu am bob digwyddiad – gan gynnwys manylion y digwyddiad, y staff a fu'n delio â'r digwyddiad ac a oedd angen adolygiad neu a oedd un wedi'i gynnal.

Rheoli Cwynion

Mae Heatherwood Court, fel rhan o Ofal Iechyd Ludlow Street ac fel darparwr gofal iechyd annibynnol yn gweithredu ei bolisi cwyno ei hun. Mae'r polisi'n amlinellu'r weithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion anffurfiol a chwynion ffurfiol; rolau'r rheolwr cwynion a swyddogion ymchwilio; a'r broses ymchwilio sy'n arwain at y canlyniadau.

Archwiliwyd hapsampl o bum cofnod cwyno yn ystod ein harolygiad, er mwyn sicrhau eu bod yn gyflawn ac yn cydymffurfio â'r Polisi Cwyno. Wrth archwilio pa mor effeithlon ac effeithiol oedd y broses o ymdrin â chwynion, gwnaethom wirio:

- A oedd y gŵyn wedi'i chofnodi'n fanwl yn y cofnod
- A oedd disgrifiad clir a manwl o'r gŵyn
- A oedd ymchwiliad wedi cael ei gynnal
- A oedd person annibynnol wedi cymryd camau dilynol ynglŷn â'r gŵyn
- A oedd yr ymateb yn amserol ac a oedd y canlyniad wedi cael ei gofnodi
- A oedd camau priodol wedi'u cymryd ynglŷn â'r gŵyn, ynghyd â'r canlyniad.

Yn wahanol i system yr ysbyty ar gyfer digwyddiadau difrifol, roedd cwynion yn derbyn sylw'n bennaf trwy system bapur o nodi, cofnodi a gweithredu. Fel arfer un aelod o staff a fyddai'n goruchwyllo'r broses hon. Roedd templedi cwynion safonol yn cael eu cwblhau er mwyn disgrifio'r digwyddiad. Roedd y

rhain wedyn yn cael eu sganio i adran briodol system gyfrifiadurol Heathwood Court, gan roi cyfeirnod unigryw.

Wedyn byddai person annibynnol yn cael ei ddewis i ymchwilio i'r gŵyn. Ni fyddai'r person annibynnol yn gysylltiedig â'r ward roedd y gŵyn yn perthyn iddi. Roedd camau gweithredu'n cael eu cymryd yn unol ag amseroedd polisi cwyno'r sefydliad³, ac roedd cofnodion o ohebiaeth yn cael eu cadw ar ffeil y person a oedd wedi gwneud y gŵyn. Yn sgil archwilio hapsampl tynnwyd sylw at nifer o broblemau: Ffurflenni anghyflawn, er enghraifft, enwau staff, llofnodion a dyddiadau ar goll; nid oedd gwybodaeth bob amser wedi'i chynnwys yn adran berthnasol y ffurflenni cwyno; nid oedd y cofnod cwyno yn ddigon cyflawn o ran dyrannu dyddiadau, dyddiadau anfon, dyddiadau yr anfonwyd llythyrau ateb dros dro, y camau a gymerwyd a'r canlyniad/cau'r achos. Roedd hefyd oedi wrth i'r swyddog ymchwilio ymdrin â chŵyn claf, a oedd yn golygu bod yr ymateb y tu allan i'r amserlen ofynnol. Roedd un claf wedi gwneud cwyn, a chafodd llythyr ateb dros dro ei anfon ar 16 Ebrill 2015. Fodd bynnag, ni chafodd ymateb ffurfiol a oedd yn amlinellu'r ymchwiliad a gynhaliwyd a'r argymhellion dilynol ei anfon tan 3 Mehefin 2015. Er ei hwyrni, roedd y llythyr ymateb yn llawn gwybodaeth ac yn glir o ran yr ymchwiliad a gynhaliwyd a'r canlyniadau.

O ystyried nifer uchel y cwynion gan gleifion y mae angen eu rheoli, roedd llawer o enghreifftiau o arfer da. Er enghraifft, roedd y rhan fwyaf o gwynion yn derbyn sylw mewn modd amserol, gydag ymatebion a oedd yn fanwl, yn gwrtais ac yn glir o ran canlyniadau'r ymchwiliad. Yn ogystal, dangosodd archwiliadau o'r wardiau bod hysbysfyddau cleifion yn cynnwys gwybodaeth ar gyfer cleifion ynglŷn â sut i leisio pryderon a gwneud cwynion. Roedd hefyd gwybodaeth wedi'i harddangos ynglŷn â gwasanaethau eiriolaeth, megis y gwasanaeth a ddarperir gan y gwasanaeth Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol.

Gellid gwella'r broses o ymdrin â chwynion ymhellach pe bai system debyg i'r un a ddefnyddir ar gyfer digwyddiadau difrifol yn cael ei chyflwyno. Byddai system fyw yn cynorthwyo wrth gasglu, rhannu a blaenoriaethu gwybodaeth trwy sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei disgrifio'n gywir, ei dyddio, ei dyrannu a'i llofnodi. Byddai system o'r fath hefyd yn sicrhau bod cyfrifoldeb yn cael ei rannu rhwng y staff, ac yn sicrhau bod pob cwyn yn derbyn sylw mewn modd amserol. Gwnaethom argymhell y dylai'r darparwr cofrestredig ystyried gweithredu system electronig ar gyfer rheoli cwynion, yn debyg i'r un a ddefnyddir ar gyfer rheoli digwyddiadau difrifol.

³ Mae cwynion yn cael eu hanfon yn syth at y rheolwr cwynion ar yr un diwrnod (neu'r diwrnod gwaith nesaf pe bai'r gŵyn yn codi ar y penwythnos neu ar ŵyl banc). Mae'r gŵyn yn cael ei chydabod o fewn dau ddiwrnod gwaith. Mae'r sefydliad yn ceisio ymateb i bob cwyn o fewn 14 diwrnod, oni bai bod estyniad wedi cael ei gytuno gyda'r person a wnaeth y gŵyn.

Cam Gofynnol

Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu'r cymysgedd cleifion ar Ward Aberteifi a Ward Caerffili, a sicrhau bod lefelau staffio a'r cymysgedd sgiliau'n adlewyrchu anghenion clinigol y wardiau.

Y tîm amlddisgyblaethol

Cafwyd sylwadau cadarnhaol ynglŷn â dull y tîm amlddisgyblaethol o weithio gan yr holl staff y gwnaethom siarad â nhw. Cynhelir cyfarfod bob dydd yn y bore sy'n cynnwys aelodau o'r tîm amlddisgyblaethol. Roedd yn gadarnhaol nodi bod y tîm amlddisgyblaethol yn cynnwys therapyddion galwedigaethol yn Heatherwood Court. Roedd hefyd mewnbwn gan staff ffisiotherapi a therapi lleferydd ac iaith, gwasanaeth deietegol, a gweithiwr cymdeithasol sy'n gweithio ar draws nifer o leoliadau Gofal Iechyd Ludlow Street. Mae'r mewnbwn hwn wedi bod o les i'r grŵp cleifion yn Heatherwood Court.

Dywedodd y staff wrthym y ceisir barn a safbwyntiau proffesiynol gan bob tîm disgyblaeth yn ystod cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaeth, ac roedd y staff yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi gan ei gilydd. Gwnaethom arsylwi ar un cyfarfod boreol, ac roedd yn amlwg bod y trafodaethau'n canolbwyntio ar ofal parhaus a gwellhad cleifion. Roeddem yn gallu gweld bod teuluoedd cleifion yn cael eu cynnwys yn y broses o gynllunio gofal, ac yn cyfrannu at wahanol agweddau ar y gofal.

Roedd Heatherwood Court yn derbyn mewnbwn gan dri seiciatrydd ymgynghorol - dau ohonynt yn llawn amser, gan gynnwys y cyfarwyddwr meddygol, ac un yn rhan amser, yn ogystal ag arbenigwr cysylltiol llawn amser.

Mae gan rai o'r nyrsys cofrestredig yn Heatherwood Court rolau arwain iechyd cyffredinol arbenigol ar gyfer yr ysbyty. Yn ogystal â nyrsys iechyd meddwl cofrestredig, mae gan bob ward o leiaf un nyrs anableddau dysgu gofrestrdig, sy'n rhoi arbenigedd ychwanegol i gymysgedd sgiliau staff y wardiau.

Ar adeg ein harolygiad roedd tair swydd nyrs yn wag. Dywedodd y darparwr ei fod wrthi'n recriwtio ar gyfer y swyddi gwag. Fe'n hysbyswyd bod yr ysbyty'n defnyddio staff banc a staff asiantaeth pan fo angen. Pan fydd staff asiantaeth yn cael eu defnyddio, fe'n hysbyswyd bod staff asiantaeth reolaidd sy'n gyfarwydd â'r gwasanaeth a'r grŵp cleifion yn cael eu defnyddio. Fodd bynnag, gwnaeth nifer o gleifion leisio eu pryderon ynglŷn â defnyddio staff asiantaeth, a'u gallu a'u gwybodaeth ar gyfer gofalu am y grŵp cleifion. Roedd hyn yn enwedig o amlwg ar Ward Aberteifi a Ward Caerffili, y ddwy ward ddiogelwch isel ar gyfer menywod. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw

yn ystod ein harolygiad yn hyderus ac yn wybodus am y grŵp cleifion a oedd yn derbyn gofal yn yr ysbyty.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod Heatherwood Court yn darparu lleoliadau ar gyfer nyrsys sydd mewn prifysgolion lleol.

Roedd y rhan fwyaf o staff y gwnaethom siarad â nhw yn Heatherwood Court yn gadarnhaol ynglŷn â gweithio yn yr ysbyty, ac yn teimlo fel pe baent yn rhan o dîm da. Gwnaethom adolygu'r arolwg staff diweddaraf, a oedd yn dangos canlyniadau cadarnhaol.

Gall cleifion yn Heatherwood Court gael mynediad at wasanaeth meddyg teulu sy'n darparu clinig yn yr ysbyty. Mae gwasanaeth optegydd lleol yn dod i'r ysbyty pan fo angen. Mae cleifion yn cael gweld deintydd cymunedol, fodd bynnag dywedodd staff wrthym fod yr ysbyty yn dilyn opsiwn lle bydd gwasanaeth deintyddol cymunedol yn dod i Heatherwood Court.

Roedd archwiliad fferylllyddol yn cael ei gynnal yn rheolaidd gan wasanaeth fferylllyddol allanol ac annibynnol.

Camau Gofynnol

Dylai'r darparwr cofrestredig ddarparu diweddariad ar y swyddi nyrsio gwag yn Heatherwood Court.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu'r staff asiantaeth sy'n cael eu defnyddio yn Heatherwood Court, er mwyn rhoi sicrwydd iddo ei hun fod gan staff asiantaeth y sgiliau priodol ar gyfer gofalu am y grŵp cleifion yn yr ysbyty.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig roi diweddariad ar ddarparu gwasanaeth deintyddol cymunedol sy'n dod i Heatherwood Court

Therapiau a gweithgareddau i gleifion

Roedd gan Heatherwood Court floc gweithgareddau neilltuedig, a oedd wedi'i ddatblygu'n dda, a adwaenid fel y Ganolfan ('The Hub'). Roedd y Ganolfan yn darparu gweithgareddau a therapïau ar safle Heatherwood Court. Roedd yn cynnwys ystafell gemau, ac ynddi fwrdd pŵl a bwrdd pêl-droed, ystafell gwaith pren, caffi - a oedd yn cael ei redeg gan gleifion ac ar agor yn y bore ac amser cinio, siop i'r cleifion, sinema a champfa. Roedd hefyd yn cynnwys cegin therapi galwedigaethol, ac ystafell sgiliau bywyd er mwyn datblygu sgiliau cadw tŷ ar gyfer byw yn annibynnol neu i fyw gyda chymorth. Hefyd roedd ystafell aml-ffydd, ystafell therapi, ystafell therapi ymddygiad dialectig, ystafell

gelf, ystafell⁴ gyfarfod ac ystafell addysg, a oedd yn cynnwys cyfrifiaduron yr oedd cleifion yn gallu eu defnyddio o dan oruchwyliaeth.

Roedd y gweithgareddau'n gymysgedd o sesiynau unigol a sesiynau grŵp ar safle Heatherwood Court ac oddi arno. Siaradodd y staff a'r cleifion yn gadarnhaol am yr amrywiaeth o weithgareddau a therapiau sydd ar gael. Roedd amrywiaeth eang o weithgareddau a oedd yn addas ar gyfer y grŵp cleifion. Roedd yn gadarnhaol nodi bod rhai o'r gweithgareddau addysg yn cael eu hachredu, fel yr oedd cleifion yn gallu gweithio tuag at gymwysterau cydnabyddedig.

Roedd staff therapi galwedigaethol yn gweithio gyda chleifion, gan gynnwys y rhai newydd eu derbyn, er mwyn darparu cynlluniau gweithgarwch wedi'u personoli. Roedd rhestr o ddiddordebau'n cael ei defnyddio er mwyn nodi hoffterau a chas bethau unigolyn, yn ogystal â'i gryfderau a'i wendidau. Roedd y wybodaeth hon yn cynorthwyo i lunio amserlen benodol ar gyfer pob claf, a oedd yn cyd-fynd â chynlluniau gweithgarwch y ward a'r ysbyty.

Gwnaeth rhai cleifion leisio pryderon nad oedd ganddynt ddiddordeb yn yr amrywiaeth o weithgareddau a oedd ar gael, a'u bod yn aml yn teimlo'n ddiflas tra eu bod yn yr ysbyty. Er bod yr ysbyty'n cynnig ystod eang o weithgareddau, roedd rhai cleifion yn teimlo nad oedd y gweithgareddau ar gael yn bodloni lefel eu galluoedd, yn ymarferol nac yn addysgol. Dywedodd rhai cleifion yr hoffent goginio drostynt eu hunain yn fwy aml. Fodd bynnag, gwnaethant ddweud iddynt gael eu hysbysu bod ceginau therapi galwedigaethol ar gyfer cleifion a oedd am ddysgu sgiliau coginio sylfaenol.

Mae staff yn cofnodi a yw cleifion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau neu beidio ar y system cynllunio gweithgareddau electronig. Fodd bynnag, wrth adolygu'r system electronig, nid oedd y rhain yn cael eu cwblhau gan staff bob amser, yn ôl pob golwg. Felly, wrth edrych ar y system cynllunio gweithgareddau electronic, nid oedd yn amlwg a oedd y claf wedi cymryd rhan yn y gweithgaredd neu beidio. Er ein bod yn cydnabod na fydd rhai cleifion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau, lle nad oedd claf wedi cymryd rhan mewn gweithgaredd, nid oedd yn glir bob amser, wrth adolygu nodiadau'r claf, pa gamau roedd y staff wedi'u cymryd er mwyn annog y claf i gymryd rhan, ac ni chofnodwyd y rheswm pam roedd y claf wedi gwrthod.

⁴ Mae therapi ymddygiad dialectig yn therapi wedi'i gynllunio i gynorthwyo pobl i newid patrymau ymddygiad nad ydynt o les, megis hunan-niweidio, meddwl am ladd eu hunain a chamddefnyddio sylweddau. Mae'r dull hwn yn ceisio helpu pobl i reoli eu hymddygiad emosiynol a gwybyddol yn well trwy ddysgu am nodweddion sy'n sbarduno cyflyrau adweithiol, a'u helpu i asesu pa sgiliau ymdopi i'w defnyddio yn ystod trefn digwyddiadau, meddyliau, teimladau ac ymddygiadau er mwyn osgoi adweithiau annymunol. Mae therapi ymddygiad dialectig yn cymryd yn ganiataol bod pobl yn gwneud eu gorau, ond naill ai nad oes ganddynt y sgiliau i weithredu mewn ffordd briodol, neu eu bod yn cael eu dylanwadu gan atgyfnerthiadau cadarnhaol neu negyddol sy'n effeithio ar eu gallu i weithredu mewn ffordd briodol.

Mae pob ward yn cynnal cyfarfod bob bore. Gwnaethom ymuno â nifer o'r rhain, a gweld cleifion a staff yn rhyngweithio'n dda, a safbwyntiau cleifion yn cael eu parchu a'u hystyried. Roedd y pedair ward yn cyfarfod yn fisol, ac roedd dau gynrychiolydd cleifion o bob ward yn mynychu.

Roedd Heatherwood Court yn rhedeg menter o'r enw 'Paned gyda Phlismon', lle roedd heddwas o'r heddlu lleol yn dod i Heatherwood Court er mwyn cwrdd â chleifion. Yn ôl staff roedd cleifion a oedd yn mynychu'r sesiynau'n derbyn hyn yn dda, ac roedd yn helpu i feithrin cysylltiadau rhwng y cleifion a'r heddlu - yn enwedig os yw cleifion wedi bod mewn cysylltiad â'r heddlu o'r blaen.

Camau Gofynnol

Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu'r gweithgareddau a'r therapiau sydd ar gael ar gyfer cleifion yn Heatherwood Court, a diddordebau priodol y grŵp cleifion, er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion yn y ddarpariaeth.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod staff yn cofnodi a yw cleifion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau, neu yn gwrthod gwneud, ynghyd â'r camau mae staff yn eu cymryd er mwyn annog cleifion i gymryd rhan yn y gweithgareddau, a pham roedd y claf wedi gwrthod.

Preifatrwydd ac urddas

Roedd gan bob claf ei ystafell wely ei hun, ar wardiau ar gyfer un rhyw yn unig. Roedd cleifion yn gallu cloi drysau eu hystafelloedd gwely, ond roedd staff yn gallu eu hagor pe bai angen. Roedd gan gleifion digon o le yn eu hystafelloedd gwely ar gyfer storio eu heiddo. Roedd cleifion yn mynd trwy asesiad risg er mwyn penderfynu a oeddent yn gallu cael eu hallwedd ystafell wely eu hunain.

Roedd cleifion yn gallu gwneud galwadau ffôn preifat. Roedd yr ysbyty'n caniatáu i gleifion ddefnyddio ffonau'r wardiau; roedd cleifion hefyd yn gallu gwneud cais i ddefnyddio eu ffonau symudol eu hunain i wneud galwadau ffôn - roedd staff y storio'r rhain y ddiogel. Roedd cleifion hefyd yn gallu defnyddio'r ystafell ymwelwyr i gyfarfod â theulu, ffrindiau ac ymwelwyr eraill yn breifat. Roedd cleifion hefyd yn gallu defnyddio'r cyfrifiaduron yn ystafell addysg y Ganolfan er mwyn siarad â theulu a ffrindiau trwy Skype.

Trwy gydol yr ymweliad gwelsom fod preifatrwydd cleifion yn cael ei gynnal, a bod cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch. Yn ystod ein harolygiad, gwelsom un aelod o'r tîm nyrsio ar ddyletswydd yn rhoi cysur, cymorth a chynghor i glaf a oedd wedi cysylltu â'r ward pan oedd ar gyfnod o absenoldeb, mewn ffordd broffesiynol a charedig.

Hyfforddiant

Roedd system oruchwylio ar waith ar gyfer pob aelod o staff, a oedd yn cael ei rhaeadru trwy'r holl strwythur staffio. Mae sesiynau goruchwylio'n cael eu cynnal bob chwech neu wyth wythnos, a dywedodd staff fod y sesiynau goruchwylio'n ystyrlon. Mae pob ward yn cofnodi a logio dyddiadau'r sesiwn oruchwylio ddiwethaf. Mae hyn yn galluogi'r sefydliad i arolygu'r broses hon ac i sicrhau bod y staff yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd. Fodd bynnag, wrth adolygu'r oruchwyliaeth yn Heatherwood Court, roedd anghysondebau i'w gweld ynglŷn â dull pob ward o gynnal a chofnodi goruchwyliaeth. Byddai'n fuddiol i'r sefydliad gynnal adolygiad o'r broses oruchwylio yn yr ysbyty, er mwyn sicrhau ei bod yn gyson ar draws yr holl wardiau.

Fe'n hysbyswyd hefyd fod yr ysbyty'n cynnal goruchwyliaeth anffurfiol bob bore. Mae hyn yn rhoi'r cyfle i staff rannu eu syniadau a thrafod sefyllfaoedd fel rhan o'u hymarfer adfyfyrion.

Cafwyd sylwadau ffafriol gan staff ynglŷn â'r broses ymsefydlu a'r hyfforddiant parhaus, ac roedd staff yn derbyn arfarniadau blynyddol. Cadarnhaodd staff fod y sefydliad yn hyfforddi drwy ddefnyddio cymysgedd o becynnau e-ddysgu a sesiynau dosbarth. Dywedodd staff wrthym fod y darparwr cofrestredig yn gefnogol o ran hyfforddiant a datblygiad staff, gan gynnwys hyfforddiant ar ieuchyd corfforol a hyfforddiant gorfodol ar ieuchyd meddwl.

Cam gofynnol

Dylai'r darparwr cofrestredig adolygu'r broses oruchwylio yn Heatherwood Court, er mwyn sicrhau ei bod yn gyson ar draws yr ysbyty.

Bwyd a maeth

Roedd y bwyd yn cael ei ddarparu gan gegin oddi ar y safle . Cafwyd safbwyntiau cymysg ar amrywiaeth ac ansawdd yr opsiynau ar gyfer prydau bwyd. Dywedodd rhai cleifion bod diffyg dewis ar gyfer llysieuwyr. Fodd bynnag, dywedodd cleifion eraill bod safon y prydau bwyd a oedd yn cael eu darparu'n dda.

Wrth adolygu'r bwydlenni, roeddem yn gallu gweld bod amrywiaeth o opsiynau ar gael ar gyfer cleifion. Yn ogystal, roedd rhai cleifion yn gallu paratoi eu prydau bwyd eu hunain yn y gegin therapi galwedigaethol.

Roedd gan gleifion yr opsiwn i fwyta gyda chyd-gleifion, neu fwyta ar eu pennau eu hunain. Roedd hyn yn rhoi dewis unigol i gleifion ynglŷn â sut i gael eu prydau bwyd. Fodd bynnag, gwnaethom arsylwi ar nifer o brydau bwyd, ac roedd yn siom nodi nad oedd staff yn rhoi llinellau bwrdd na

napcynau ac ati ar y byrddau, er mwyn cyflwyno'r prydau bwyd mewn ffordd dda, a chreu profiad a oedd yn rhan o'r gofal therapiwtig.

Gwnaeth nifer o gleifion gwyno nad yw'r bwyd yn ddigon twym pan fydd yn cyrraedd, neu nad yw eitemau neu brydau bwyd yn cyrraedd.

Roedd cleifion yn gallu cael mynediad at fyrbrydau a diodydd y tu allan i amseroedd prydau bwyd, ac roedd gan bob claf fan diogel ar gyfer storio eu heitemau eu hunain.

Camau Gofynnol

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod staff y wardiau'n coladu unrhyw bryderon a leisir gan gleifion ynglŷn â darpariaeth bwyd yn Heatherwood Court, ac archwilio'r materion a leisir a mynd i'r afael â nhw.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod amseroedd prydau bwyd yn Heatherwood Court yn cael eu trin fel rhan o'r gofal therapiwtig.

Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Gwnaethom adolygu sampl o chwe set o'r ddogfennaeth iechyd meddwl a oedd yn ffeiliau'r cleifion, ar ddwy o'r pedair ward. Roedd y ddogfennaeth hon wedi'i chynnal yn dda ac wedi'i ffeilio'n systematig. Mae hyn yn caniatáu i staff wirio statws cyfreithiol cleifion ac adolygu'r wybodaeth amdanynt.

Cadw Cleifion

Ar gyfer pob un o'r cleifion wedi'u cadw a dan Adran 2, *Derbyn ar gyfer Asesiad*⁵, neu Adran 3, *Derbyn*⁶ ar gyfer *Triniaeth*, roedd o leiaf un o'r meddygon wedi'i gymeradwyo dan Adran 12. Roedd y dogfennau statudol yn nodi pam mai cadw'r claf o dan y Ddeddf oedd y ffordd fwyaf priodol o ddarparu gofal.

Lle bu claf o dan Orchymyn Triniaeth Gymunedol y flaenorol⁷ roedd amodau ei absenoldeb wedi cael eu hamrywio'n gywir. Lle roedd claf wedi cael ei galw yn ôl i'r ysbyty a'r Gorchymyn Triniaeth Gymunedol yn cael ei ddileu, roedd y ddogfennaeth statudol wedi cael eu cwblhau'n gywir, a'r rhesymau pam mai cadw yn yr ysbyty o dan Adran 3 y Ddeddf oedd y ffordd fwyaf priodol o ddarparu wedi cael eu nodi.

Lle roedd rhai cleifion wedi'u cadw o dan Ran 3 o'r Ddeddf, Cleifion sy'n Gysylltiedig ag Achos Troseddol neu sydd o dan Ddeddfryd, roedd copïau o'r ddogfennaeth yn gysylltiedig â'u cadw ar gael yn eu ffeiliau.

Cadw parhaus

Lle roedd cleifion wedi bod yn ddarostyngedig i'r cam o adnewyddu'r cyfnod cadw, roedd y ffurflenni rhagnodedig cywir wedi cael eu cwblhau o fewn yr amserlenni gofynnol. Roedd dogfennau statudol yn nodi pam mai cadw'r claf o dan y Ddeddf oedd y ffordd fwyaf priodol o ddarparu gofal i'r claf o hyd.

Apelio yn erbyn cadw claf

Roedd y cleifion wedi cael eu hysbysu am eu hawliau i apelio yn erbyn cael eu cadw; roedd yn amlwg y byddai'r prosesau'n cael eu dilyn pe bai'r cleifion am apelio i Wrandawiadau Rheolwyr Ysbyty a Thribiwnlysoedd Adolygu Iechyd Meddwl. Roedd gwrandawiadau yn cael eu cynnal o fewn y cyfnodau cadw cywir.

Rhan 132 – darparu gwybodaeth

⁵ Adran 2 – derbyn ar gyfer asesiad, claf wedi'i gadw dan y Ddeddf Iechyd Meddwl

⁶ Adran 3 – derbyn ar gyfer triniaeth, claf wedi'i gadw dan y Ddeddf Iechyd Meddwl

⁷ Awdurdodiad ysgrifenedig ar ffurflen ragnodedig ar gyfer rhyddhau claf o amodau cadw mewn ysbyty i gael triniaeth gymunedol dan oruchwyliaeth.

Roedd tystiolaeth glir bod y cleifion yn derbyn gwybodaeth reolaidd am gael eu cadw ac am eu hawlau o dan y Ddeddf. Lle'r oedd angen, pan oedd y cleifion yn gwrthod cyfathrebu â'r staff, neu os nad oeddent yn gallu deall y wybodaeth, byddai'r staff yn ceisio rhoi'r wybodaeth i'r cleifion yn rheolaidd.

Mae eiriolwr iechyd meddwl annibynnol⁸ o'r gwasanaeth Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol yn mynychu Heatherwood Court. Roedd cleifion yn siarad yn gadarnhaol am y gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu.

Cydsynio i driniaeth

Roedd cleifion a oedd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Cydsynio i Driniaeth Adran 58 y Ddeddf wedi eu cofnodi a'u hawdurdodi'n gywir⁹. Roedd copïau o'r tystysgrifau Cydsynio i Driniaeth wedi'u cadw gyda Chofnod Rhoi Meddyginiaethau pob claf, pan fo hynny'n berthnasol. Lle bu'n rhaid i Feddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn (SOAD) awdurdodi tystysgrif cydsynio i driniaeth, cafodd cofnod o'r broses hon ei nodi yn nodiadau'r claf.

Caniatâd i fod yn absennol o dan Adran 17¹⁰

Roedd pob ffurflen awdurdodi absenoldeb Adran 17 wedi'i hawdurdodi gan glinigydd cyfrifol y claf, gan gynnwys y terfyn amser neu'r dyddiad adolygu wedi'u cwblhau. Wrth adolygu nodiadau cleifion, gwelwyd bod asesiadau risg yn cael eu cynnal ar gyfer ffurflenni awdurdodi absenoldeb Adran 17.

Roedd yn amlwg bod rhoi copïau o ffurflenni awdurdodi absenoldeb i deulu, ffrindiau a gofalwyr yn opsiwn, ac roedd yn cael ei nodi pan oedd hyn wedi digwydd. Cafwyd cofnod yn nodiadau'r cleifion o ba mor llwyddiannus oedd eu habsenoldeb, yn ogystal ag unrhyw broblemau neu bryderon a ddigwyddodd yn ystod y cyfnod o absenoldeb.

⁸ Mae eiriolwr sy'n annibynnol i'r tîm sy'n darparu gofal y claf ar gael i gefnogi cleifion o dan drefniadau mae angen penodol eu gwneud o dan y Ddeddf.

⁹ Ffurf ar driniaeth feddygol ar gyfer anhwylder meddyliol mae'r rheolau arbennig yn adran 58 y Ddeddf yn berthnasol iddi, sy'n golygu meddyginiaeth ar gyfer anhwylder meddyliol ar gyfer cleifion sydd wedi'u cadw ar ôl cyfnod cychwynnol o dri mis

¹⁰ Mae caniatâd i adael tiroedd yr ysbyty'n cael ei awdurdodi gan glinigydd cyfrifol y claf.

Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl

Gwnaethom adolygu wyth set o ddogfennau cynllunio gofal a thriniaeth cleifion yn Heatherwood Court.

Nodwyd bod gan gleifion ddwy set o ffeiliau cynllunio gofal, ac un ohonynt yn benodol i iechyd corfforol. Fodd bynnag, nodwyd bod dogfennaeth cynllunio gofal wedi cael eu dyblygu rhwng y ddwy ffeil. Ar gyfer rhai cleifion nid oedd y fersiynau diweddaraf o ddogfennau yn y ddwy ffeil cynllunio gofal.

Roedd profforma adolygu mewn rhai cynlluniau gofal, a oedd yn dangos pan oedd cynllun gofal wedi cael ei adolygu, ac a oedd angen diweddarau'r cynllun neu beidio. Fodd bynnag, nid oedd un ar gyfer pob ffeil. Felly roedd yn aneglur mewn rhai achosion a oedd cynllun gofal wedi cael ei adolygu yn fisol, fel y nodwyd ar y cynllun gofal, pan oedd y llofnod diweddaf ar y cynllun gofal yn hŷn. Roedd y profforma mewn cynlluniau gofal eraill, a oedd yn dangos bod cynllun gofal wedi cael ei adolygu, ac nad oedd angen ei ddiweddarau.

Dim ond 11 o'r 47 o gleifion yn Heatherwood Court a oedd yn ddarostyngedig i Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010; roedd gweddill y cleifion wedi cael eu comisiynu trwy GIG Lloegr. Gwelwyd bod anghysondebau ynglŷn â'r fformat rhwng y cynlluniau gofal wrth adolygu cleifion o Loegr am nad yw'r cynllun gofal a thriniaeth yn cael ei weithredu ar eu cyfer. Dylai'r sefydliad, mewn ymgynghoriad â chomisiynwyr Lloegr, ystyried efelychu'r cynlluniau gofal a thriniaeth ar gyfer cleifion o Loegr, cyhyd ag y bo modd, fel bod gan staff fodel cyson ar gyfer cynllunio gofal yn Heatherwood Court.

Camau Gofynnol

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau nad yw dogfennaeth cynllunio gofal yn cynnwys gwybodaeth wedi'i dyblygu a bod y wybodaeth yn gyfredol.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y cofnod o adolygu a diweddarau'n glir ar ddogfennaeth cynllunio gofal.

6. Y Camau Nesaf

Mae'n ofynnol i Heatherwood Court gwblhau Cynllun Gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad a chyflwyno ei gynllun gwella i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Heatherwood Court yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, a chaiff ei werthuso yn rhan o'r broses arolygu barhaus ar iechyd meddwl/anabledd dysgu.

Atodiad A

Iechyd Meddwl/Anabledd Dysgu: Cynllun Gwella

Darparwr Cofrestredig: Grŵp Gofal Iechyd Ludlow Street

Lleoliad: Heatherwood Court

Dyddiad yr arolygiad: 2, 3 a 4 Mehefin 2015

Rhif y Dudalen	Cam gofynnol	Rheoliad	Cam Gweithredu'r Darparwr	Swyddog cyfrifol	Amserlen
10	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod dodrefn newydd yn cael eu prynu ar gyfer Ward Aberteifi.	26(2) (b)	Mae'r dodrefn a oedd wedi cael eu harchebu bellach wedi cyrraedd ac wedi cymryd lle pob eitem a oedd wedi'i difrodi	Y Rheolwr Cofrestredig	Cwblhawyd
10	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod llenni yn yr ystafell fwyta ar Ward Aberteifi.	26(2) (b)	Mae'r llenni bellach wedi cael eu harchebu ac rydym yn aros amdanynt. Byddant wedi cael eu gosod erbyn diwedd mis Gorffennaf	Y Rheolwr Cofrestredig	31 Gorffennaf 2015

10	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y mecanwaith cau drysau ar ddrws swyddfa Ward Aberteifi yn cael ei gywiro i sicrhau bod y drws yn cau heb aflonyddu ar staff a chleifion.	26(2) (b)	Mae'r mecanweithiau cau drysau bellach wedi cael eu cywiro a'r broblem wedi'i datrys.	Y Rheolwr Cofrestredig	Cwblhawyd
10	Rhaid i'r darparwr cofrestredig addurno Ward Aberteifi a Ward Caerffili er mwyn gwella golwg y Wardiau.	26(2) (b)	Mae ein haddurnwyr wedi rhoi blaenoriaeth i'r gwaith hwn, ac fe fydd wedi'i orffen erbyn diwedd mis Awst.	Rheolwr Cyffredinol	31 Awst 2015
10	Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu'r cymysgedd cleifion ar Ward Aberteifi a Ward Caerffili, a sicrhau bod lefelau staffio a'r cymysgedd sgiliau'n adlewyrchu anghenion y wardiau.	19(1) (b) 20(1)(a)	Mae pob claf yn cael ei adolygu bob mis gan y tîm amlddisgyblaethol. Bydd y cymysgedd cleifion yn cael ei ystyried yn ffurfiol wrth dderbyn cleifion, a bydd hyn yn cael ei gofnodi yn y cofnodion. Mae'r rheolwyr yn adolygu lefelau staffio a chymysgedd sgiliau ar gyfer yr unedau, ac yn eu newid yn rheolaidd er	Y Rheolwr Cofrestredig Rheolwr Clinigol	Yn parhau

			mwyn adlewyrchu anghenion.		
10	Dylai'r darparwr cofrestredig roi diweddariad ar y swyddi nyrsio gwag yn Heatherwood Court.	20(1)(a)	Mae nifer fach o swyddi nyrsio'n dal i fod yn wag. Rydym wedi rhoi cryn dipyn o amser ac adnoddau i weithgarwch recriwtio, ac rydym yn elwa ar ddwy nyrs fanc lawn amser sy'n lleihau'r pwysau a achosir gan y swyddi gwag. Mae strategaeth recriwtio ffurfiol yn cael ei pharatoi.	Y Rheolwr Cofrestredig Reolwr Adnoddau Dynol	Yn parhau
10	Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu'r staff asiantaeth sy'n cael eu defnyddio yn Heatherwood Court, er mwyn rhoi sicrwydd iddo'i hun fod gan staff asiantaeth y sgiliau priodol ar gyfer gofalu am y grŵp cleifion yn yr ysbyty.	21(1)(c)	Mae'r holl staff asiantaeth yn cael eu cyflogi ar yr amod bod eu cymwysterau, eu sgiliau a'u statws gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu gwirio, trwy ddefnyddio system pasbort. Mae'r asiantaethau'n darparu'r wybodaeth hon cyn inni gyflogi'r staff. Rydym yn	Rheolwr Cofrestredig	Wedi'i gwblhau ac yn barhaus

			ceisio defnyddio nifer fach o staff asiantaeth, sy'n gyfarwydd â'r safle a'r grŵp cleifion.		
10	Rhaid i'r darparwr cofrestredig roi diweddariad ar ddarparu gwasanaeth deintyddol cymunedol sy'n dod i Heatherwood Court.	15(1)(a)(b)	Ar hyn o bryd mae cleifion yn defnyddio'r gwasanaethau deintyddol lleol yn llwyddiannus. Mae'r arweinydd clinigol yn parhau i geisio cysylltu â Phennaeth Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf. Fodd bynnag, ni dderbyniwyd ymateb hyd yn hyn a byddwn yn cymryd camau dilynol ynglŷn â'r mater hwn.	Arweinydd Clinigol	30 Medi 2015
17	Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu'r gweithgareddau a'r therapïau sydd ar gael ar gyfer cleifion yn Heatherwood Court, a diddordebau priodol y grŵp	15(1)(a)(b)(c)	Mae adolygiad yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Mae hyn yn cynnwys holiadur arolwg er mwyn i gleifion roi adborth ynglŷn â'r gweithgareddau. Y rheolwr	Y Rheolwr Cofrestredig	31 Awst 2015

	cleifion, er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion yn y ddarpariaeth.		clinigol sy'n arwain hwn, mewn cydweithrediad â'r timau nyrsio a'r timau therapïau.		
17	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod staff yn cofnodi a yw cleifion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau, neu yn gwrthod gwneud, ynghyd â'r camau mae staff yn eu cymryd er mwyn annog cleifion i gymryd rhan yn y gweithgareddau, a pham roedd y claf wedi gwrthod.	15(1)(a)(b)(c)	Mae system cofnodi newydd bellach ar gael. Mae hon wedi gwneud y gwaith o gofnodi'n gyflymach ac yn haws ar gyfer y defnyddiwr. Mae calendr electronig ar y system Partneriaid Gofal newydd yn cael ei defnyddio i gofnodi a yw cleifion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau, neu therapïau, neu beidio. Mae'r calendr electronig unigol yn caniatáu cofnodi presenoldeb llawn, presenoldeb rhannol neu absenoldeb, a bydd staff yn cofnodi rhesymau dros bresenoldeb rhannol neu	Rheolwr Uned	Cwblhawyd ac yn barhaus

			absenoldeb. Mae gweithgareddau grŵp yn cael eu cofnodi ar daenlen ar wahân, gyda sylwadau ynglŷn â phresenoldeb. Mae cofnodion gweithgareddau/therapiau'n cael eu harchwilio gan bencampwyr Partneriaid Gofal Lleol, ac mae unrhyw ddiffygion yn cael eu nodi er mwyn tynnu sylw rheolwyr uned atynt.		
17	Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu'r broses oruchwyllo yn Heatherwood Court, er mwyn sicrhau ei bod yn gyson ar draws yr holl wardiau.	20(2)(a)	Mae adolygiad yn cael ei gynnal mewn cydweithrediad â'r rheolwyr uned yn Heatherwood Court. Bydd profforma y cytunir arno'n cael ei baratoi ar ddiwedd y broses hon, a hon fydd y model sengl ar gyfer yr holl dimau nyrsio.	Rheolwr Gweithrediadau Arweinydd Clinigol	30 Medi 2015

17	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod staff y wardiau'n coladu unrhyw bryderon a leisir gan gleifion ynglŷn â darpariaeth bwyd yn Heatherwood Court, ac archwilio'r materion a leisir.	15(9)(b)	Yn sgil cyfarfodydd pedair ward y cleifion, lle mae'r prif gogydd yn bresennol, mae pob uned wedi derbyn llyfrau er mwyn gwneud sylwadau ar y bwyd. Mae hwn ar gael ar gyfer cleifion ar bob adeg. Bydd y sylwadau hyn yn cael eu hadolygu bob wythnos gan y prif gogydd a'r rheolwr cyffredinol. Bydd pob mater yn derbyn sylw yng nghyfarfodydd rheolaidd y pedair ward, yn ogystal ag mewn cyfarfodydd arlwyio penodol y pedair ward a gynhelir yn chwarterol. Mae bwydlenni'n cael eu hadolygu'n barhaus gyda'r cleifion er mwyn nodi pa mor boblogaidd yw seigiau gwahanol.	Rheolwr Cyffredinol Prif gogydd	Cwblhawyd
----	--	----------	--	------------------------------------	-----------

			Mae cofnod cwyno electronig wedi cael ei ddatblygu. Mae hyn yn cynnwys categorïau o gwynion yn unol â diffiniadau fframwaith y GIG yng Nghymru.		
17	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod amseroedd prydau bwyd yn Heatherwood Court yn cael eu trin yn fel o'r gofal therapiwtig.	15(1)(a)	Bydd un aelod o staff yn cael ei ddynodi ar gyfer pob uned amser prydau bwyd, er mwyn darparu presenoldeb staff cyson, ac i sicrhau bod y profiad yn therapiwtig, yn gadarnhaol ac yn cyd-fynd â gweithdrefnau iechyd a diogelwch a hylendid bwyd. Bydd yr aelod hwn o staff yn gallu bwyta gyda'r cleifion am ddim, os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Disgwylir i bob aelod o staff gyfrannu at brofiad amser prydau bwyd therapiwtig mewn ffordd gadarnhaol.	Rheolwr Cyffredinol Rheolwr Uned	30 Medi 2015

22	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau nad yw dogfennaeth cynllunio gofal yn cynnwys gwybodaeth wedi'i dyblygu a bod y wybodaeth yn gyfredol.	23(3)(a)	Mae'r cynlluniau gofal yn cael eu harchwilio gan reolwr yr uned o leiaf unwaith y mis ac yng nghyfarfod misol y tîm amlddisgyblaethol. Mae'r camau gweithredu yn sgil archwiliadau'n cael eu nodi a'u roi i'r person priodol, ynghyd ag amserlen i'w cwblhau a bydd ail archwiliad yn cael ei gynnal ar ôl y dyddiad cwblhau. Mae elfen o ddyblygu er mwyn bodloni disgwyliadau'r GIG yng Nghymru o dan gynlluniau hybu iechyd a chynlluniau eraill.	Rheolwr Uned	30 Medi 2015
22	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y cofnod o adolygu a diweddarau'n glir ar ddogfennaeth cynllunio gofal.	23(3)(a)	Mae cofnodion cyfarfod y tîm amlddisgyblaethol yn dangos bod cynlluniau'n cael eu hadolygu, yn ogystal â'r camau gweithredu sydd eu hangen	Rheolwr Uned	30 Medi 2015

			a phan fyddant wedi'u cwblhau. Bydd hefyd tystiolaeth o'r rhain yn y ddogfennaeth cynllunio gofal.		
--	--	--	--	--	--